## ATODLEN 3

Rheoliad 27

## GWYBODAETH AM DDARPAR RIANT MAETH AC AELODAU ERAILL O AELWYD A THEULU'R DARPAR RIANT MAETH

**1.** Enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni'r darpar riant maeth.

**2.** Manylion iechyd y person hwnnw (wedi'u hategu gan adroddiad meddygol), ei bersonoliaeth, ei statws priodasol a manylion priodas gyfredol neu berthynas debyg y person hwnnw ac unrhyw briodas flaenorol neu berthynas debyg.

**3.** Manylion unrhyw aelodau eraill o aelwyd y person hwnnw sy'n oedolion.

**4.** Manylion y plant yn nheulu'r person hwnnw, p'un ai ydynt yn aelodau o'i aelwyd neu beidio, ac unrhyw blant eraill yn ei aelwyd.

**5.** Manylion am lety'r person hwnnw.

**6.** Argyhoeddiad crefyddol y person hwnnw, i ba raddau y mae'n dilyn ei grefydd a'i allu i ofalu am blentyn o unrhyw argyhoeddiad crefyddol penodol.

**7.** Tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol y person hwnnw a'i allu i ofalu am blentyn o unrhyw darddiad penodol neu unrhyw gefndir diwylliannol neu ieithyddol.

**8.** Swydd neu alwedigaeth y person hwnnw yn y gorffennol a'r presennol, ei safon byw a gweithgareddau a diddordebau hamdden.

**9.** Profiad blaenorol y person hwnnw (os o gwbl) o ofalu am ei blant ei hun a phlant eraill.

**10.** Medrau, hyfedredd a photensial y person hwnnw sy'n berthnasol i'w allu i ofalu'n effeithiol am blentyn sydd wedi'i leoli gydag ef.

**11.** Canlyniad unrhyw gais a wnaed gan y person hwnnw neu unrhyw aelod arall o aelwyd y person hwnnw am faethu neu fabwysiadu plant neu am gofrestru plentyn ar gyfer gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd(**1**), gan gynnwys manylion unrhyw gymeradwyaeth flaenorol sy'n ymwneud â'r person neu ag unrhyw aelod arall o aelwyd y person hwnnw neu fanylion penderfyniad blaenorol i wrthod cymeradwyaeth o'r fath.

**12.** Enw a chyfeiriadau dau berson a fydd yn darparu tystlythyron personol ar gyfer y darpar riant maeth.

**13.** Mewn perthynas â'r darpar riant maeth a phob aelod o'r aelwyd sydd yn 18 neu drosodd, tystysgrif cofnod troseddol fanwl a roddwyd o dan adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997(**2**), gan gynnwys y materion a bennir yn adran 115(6A) o'r Ddeddf honNo.

---

(**1**) Darperir ar gyfer cofrestru ar gyfer gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd o dan Ran XA o Ddeddf 1989 mewn perthynas â Chymru a Lloegr a Rhan X o'r Ddeddf honno mewn perthynas â'r Alban.

(**2**) Gweler y troednoaidau i baragraff 2 o Atodlen 1.